Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Sirol Llanybydder

**Llanybydder**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA40 9RP**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Sirol Llanybydder

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Sirol Llanybydder |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 77 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 67 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 12.7% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 22.2%) | 11.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 22.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 13.4% |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Gorffennaf 2015 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 21/05/2013 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Llanybydder yn gymuned hapus, ddiogel a gweithgar. Mae’r parch rhwng holl aelodau’r ysgol yn amlwg ym mhob agwedd o’i gwaith, er enghraifft wrth i’r disgyblion hynaf ofalu’n dyner am y rhai ieuengaf. Mae’r disgyblion yn hynod gwrtais ac yn falch iawn o’u hysgol a’u cymuned. Mae ganddynt lais ym mywyd yr ysgol ac maent yn cydweithio’n effeithiol â’i gilydd ac oedolion wrth gynllunio profiadau dysgu cyfoethog. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod gwersi a gweithgareddau sy’n eu hysbrydoli i wneud eu gorau. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig wrth iddynt symud drwy’r ysgol.

Mae’r staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn cyd-destunau go iawn wrth iddynt ddysgu’n gynyddol annibynnol. Mae’r ardaloedd dysgu yn ysgogol a diddorol, ac yn yr arfer orau maent yn lleoedd hynod greadigol sy’n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn siarad yn wybodus am yr hyn sy’n dda am eu gwaith a’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella er mwyn gwneud cynnydd. Mae lleiafrif y disgyblion yn cyflwyno gwaith yn briodol gan ddefnyddio llawysgrifen o safon addas.

Mae staff yr ysgol yn dîm cydwybodol sy’n gweithio’n ddiwyd i gefnogi lles a chynnydd pob disgybl. Maent yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cyfrannu’n wybodus i’r gweithgareddau hunanwerthuso trylwyr ac effeithiol. Mae arweinwyr yn adnabod blaenoriaethau gwella yn synhwyrol ac yn monitro a gwerthuso’r cynnydd yn fedrus. Mae’r llywodraethwyr yn weithredol yn holl weithgareddau’r ysgol ac yn cefnogi a herio’r pennaeth yn effeithiol. Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol â rhieni sy’n cefnogi lles ac addysg eu plant yn effeithiol.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig

A2 Gwella safon llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod cyfnod y disgyblion yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau o’u mannau cychwyn. Maent yn caffael gwybodaeth, yn dwysáu eu dealltwriaeth ac yn datblygu eu medrau yn llwyddiannus mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd-destunau dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn gwrando’n astud ar ei gilydd ac oedolion. Mae medrau siarad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn sgwrsio’n hyderus yn y Gymraeg, er enghraifft wrth chwarae rôl môr ladron. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac aeddfed gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, er enghraifft wrth leisio safbwyntiau gwahanol am les anifeiliaid mewn sŵ.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau yn gywir ac yn dechrau adnabod geiriau yn gynyddol hyderus. Wrth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ymhellach, mae’r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon yn unol â’u hoed a’u gallu, er enghraifft wrth ddehongli testun a thynnu llun o’r cynnwys. Wrth i fedrau darllen disgyblion hŷn yr ysgol ddatblygu, mae llawer yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Maent yn ymarfer eu uwch fedrau darllen yn gyson i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth lithr ddarllen testun ffeithiol i gywain gwybodaeth am effaith rhyfeloedd y byd yng Nghymru.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gyson. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau marcio cynnar yn effeithiol wrth dynnu lluniau ac efelychu ysgrifennu llythrennau. Wrth iddynt ddatblygu, mae llawer yn ysgrifennu’n annibynnol at wahanol bwrpasau, gan ddechrau defnyddio geirfa a phatrymau addas. Llwydda'r rhan fwyaf i ysgrifennu stori ddychmygus gan ddefnyddio ansoddeiriau addas am ‘y brwsh hud’. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n llwyddiannus. Ar frig yr ysgol, maent yn drafftio eu gwaith yn effeithiol ac yn gwneud defnydd pwrpasol o gymariaethau ac idiomau i gyfoethogi eu gwaith. Mae’r rhan fwyaf yn ysgrifennu’n bwrpasol ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod o ffurfiau gwahanol yn Gymraeg a Saesneg, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson am ddiwrnod cyntaf Ahmet yn ei ysgol newydd. Yn gyffredinol, nid yw mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau llawysgrifen yn ddigon effeithiol. Yn aml, mae safon y gwaith yn anniben gan nad yw’r disgyblion yn cymryd digon o ofal i gyflwyno gwaith o safon dda.

Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio offer mathemategol syml yn dda i adnabod rhifau. Wrth iddynt ddatblygu eu medrau ymhellach, mae ganddynt afael gadarn ar ffeithiau rhif a mesur ac maent yn trin data yn gywir. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datrys problemau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio tafol i bwyso cynhwysion yn gywir er mwyn creu toes. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu’n dda ar eu dysgu blaenorol. Mae

ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddulliau i gymhwyso eu medrau rhif mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd-destunau, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf ddadansoddi data a chreu graff ar ba adar sydd i'w gweld ar dir yr ysgol.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau yn bwrpasol, er enghraifft wrth ddefnyddio meddalwedd i rannu ffeithiau am y glaniad cyntaf ar y lleuad. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n gyson wrth ddefnyddio ystod eang o feddalwedd a chyfarpar digidol yn fedrus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio rhaglen I olygu lluniau ac ychwanegu eu delweddau at ddarluniau yn llwyddiannus.

Mae medrau corfforol bron bob disgybl yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymarfer eu medrau yn gyson drwy wneud defnydd da o'r offer dringo, neu ddefnyddio'r beiciau cydbwyso yn fedrus. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau'n effeithiol, er enghraifft wrth iddynt ddatblygu eu medrau cydbwyso wrth ganŵio a phadl fyrddio yn ystod ymweliad preswyl diweddar.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r awyrgylch gartrefol a'r ffordd garedig ac addfwyn mae llawer o'r disgyblon hynaf yn gofalu am eu cyfoedion ieuengaf. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at natur gynhwysol ac ethos gofalgar yr ysgol. Mae disgyblion yn cyfarch ei gilydd ac oedolion yn barchus ac yn estyn croeso cynnes i ymwelwyr. Maent yn falch iawn o'u hysgol ac yn mwynhau bod yn rhan o'i chymuned.

Mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarn at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf yn ymgymryd â thasgau'r dosbarth yn frwd ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, mewn parau, grwpiau neu drwy gynnig cymorth i'w gilydd, pan fo angen. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn barod i ddyfalbarhau er mwyn llwyddo. Trwy hyn, maent yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig yn llwyddiannus gan drafod eu gwaith yn hyderus. Mae'r disgyblion ieuengaf yn ymgymryd â'r gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu a chwarae yn annibynnol, er enghraifft wrth adeiladu dinosoriaid yn yr ardd greadigol.

Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar lein. O ganlyniad i ymgyrch bwyta'n iach y cyngor ysgol, mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd maent yn eu cael i wella eu ffitrwydd o fewn y gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau cadw'n heini gan y llysgenhadon chwaraeon.

Mae aelodau'r amryw o gynghorau ysgol yn falch o'u rolau ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri. Maent yn cynllunio'n ddiwyd i wella'r ysgol. Er enghraifft, mae'r eco gyngor yn weithgar iawn yn annog disgyblion i barchu amgylchedd yr ysgol ac yn ehangach. Maent yn monitro defnydd trydan dosbarthiadau, casglu sbwriel ac yn plannu planhigion er mwyn gwella'r ardal tu allan.

Ar draws yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb yn gyson i adborth oedolion a'u cyfoedion. Mae disgyblion yn trafod gwaith ei gilydd yn effeithiol gan gyfeirio at y meini prawf llwyddiant yn briodol. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Oherwydd y pandemig, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021- 2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad.)

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae pob aelod o staff yn gweithio'n galed i feithrin perthynas gynhwysol a gweithgar gyda’r disgyblion. O ganlyniad, mae’r amgylchedd dysgu yn gefnogol ac ysgogol sy’n datblygu brwdfrydedd disgyblion tuag at eu dysgu. Mae’r staff cyfan yn cydweithio’n effeithiol ac yn cymell a rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus. Ar draws yr ysgol, mae’r amgylchedd cadarnhaol yn annog pob disgybl i wneud ei orau heb ofn methu. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion.

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn paratoi, trefnu a strwythuro’u gwersi’n effeithiol. Mae’r athrawon yn cysylltu eu gwersi’n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o strategaethau’n fedrus. Mae’r athrawon yn darparu profiadau dysgu sy’n ennyn diddordeb bron bob disgybl gan baratoi gweithgareddau sy’n eu hysgogi i ddysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn cynllunio parti gan ddewis ac archebu bwydydd o wefannau archfarchnadoedd gan sicrhau gwerth am arian o fewn cyllid o £20. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau TGCh a rhifedd yn effeithiol wrth gydweithio’n dda mewn grwpiau i ddewis a dethol bwydydd iachus.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr a threfnus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn adeiladol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae safonau llafar disgyblion a'r modd maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm yn datblygu'n gadarn. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig.

Mae’r ysgol yn cynllunio’n fwriadus ar gyfer cynllunio a chyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru sy'n ymgorffori ei weledigaeth, 'Ysbrydoli plant, Ysbrydoli llwyddiant', yn effeithiol. Maent yn paratoi ac yn arbrofi â dulliau diddorol sy’n cael eu cynllunio'n bwrpasol yn unol â’r chwe maes dysgu a phrofiad. Mae egwyddorion ehangach y cwricwlwm yn datblygu’n briodol wrth feithrin disgyblion i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a mentrus.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio’n llwyr. Mae’r ardaloedd dysgu yn ennyn diddordeb ac yn gafael yn nychymyg disgyblion yn fedrus. Mae bron bob gweithgaredd yn cefnogi disgyblion i ddysgu’n gynyddol annibynnol ac i fagu hyder a meithrin dyfalbarhad wrth arbrofi â gwahanol adnoddau. Er enghraifft, mae staff yn darparu adnoddau gweledol ac ysgogol sy’n hyrwyddo medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn effeithiol ym mhob ardal. Caiff athrawon eu cefnogi’n hynod effeithiol gan dîm medrus o gynorthwywyr sy’n annog disgyblion i ddysgu’n effeithiol, yn enwedig yn yr ardal tu allan.

Ym mlynyddoedd hynaf yr ysgol, mae'r staff yn creu amgylchedd dysgu ysgogol a phwrpasol. Mae ardaloedd tawel wedi eu datblygu lle mae cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol a bwriadus mewn awyrgylch gyfforddus. Maent yn darparu gweithgareddau ac adnoddau addas sy'n gweddu'n dda i ddiddordebau a gallu bron bob disgybl.

Mae'r holl staff yn cyfoethogi iaith disgyblion yn fedrus sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at wella safonau eu hiaith lafar. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gydweithio â'i gilydd, er enghraifft wrth i ddisgyblion drafod geirfa ac idiomau yn aeddfed wrth ddisgrifio ffotograffau o drychineb Senghennydd.

Mae'r staff yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i'r disgyblion yn ystod gweithgareddau er mwyn cynnal ac ymestyn eu dysgu. Maent yn darparu adborth ysgrifenedig syml ond effeithiol ac mae'r disgyblion yn ymateb iddo yn rheolaidd sy'n cynnig arweiniad clir iddynt am y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn hyderus am beth sy'n dda yn eu gwaith a'r cynnydd y maent yn ei wneud.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn hyrwyddo parch, cwrteisi, ac ymddygiad disgyblion yn hynod lwyddiannus. Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol i greu cymuned hapus a chynhwysol mewn amgylchedd dysgu diogel. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu ac mae ymdeimlad ac ethos ofalgar tuag at bob disgybl yn rhinwedd nodedig o'r ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae iechyd a lles corfforol ac emosiynol disgyblion yn cael lle blaenllaw ym mywyd yr ysgol, gydag amrywiaeth o gyfleoedd iddynt gadw'n heini. Er enghraifft, mae llysgenhadon chwaraeon yn cynnal gweithgareddau rheolaidd yn ystod amseroedd cinio, ac yn hybu iechyd ac ymagwedd eu cyfoedion at gadw'n heini yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol drefniadau perthnasol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac mae disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach. Er enghraifft, yn ystod diwrnod bwyta'n iach, darparodd y disgyblion fyrbrydau iachus fel creision llysiau a smwddis ffrwythau i'w cyfoedion fwynhau ar yr iard. Mae trefniadau effeithiol gan yr ysgol i wirio lles emosiynol disgyblion yn ddyddiol. Mae disgyblion yn hyderus bod staff yn barod i wrando a chymryd eu pryderon o ddifri.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod amrywiaeth o gyfleoedd i ddisgyblion ymgeisio i fod yn aelodau o'r cynghorau amrywiol. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyfrannu'n fedrus i weithgarwch yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn atgoffa'r rhieni yn rheolaidd am bwysigrwydd bwyta'n iach ac i ddarparu bocsys bwyd iachus i'w plant ac i osgoi anfon creision a siocled i'r ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl sy'n dod â bocs bwyd i'r ysgol yn bwyta'n iachus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn. Mae cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un tudalen yn cynnwys targedau clir sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol gan athrawon a chynorthwywyr i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau. Mae'r staff yn monitro'r targedau'n rheolaidd ac yn trefnu cymorth ychwanegol buddiol er mwyn diwallu anghenion disgyblion. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion ag ADY yn

llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n effeithiol â nifer o asiantaethau arbenigol fel therapyddion iaith a'r seicolegwyr addysg sy'n darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion.

Mae ethos yr ysgol a'r gwasanaethau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r staff yn annog disgyblion i ystyried safbwyntiau eraill yn sensitif, i gydnabod a pharchu amrywiaeth a phwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch. Mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu hatgyfnerthu'n gelfydd drwy astudiaeth y dosbarthiadau hŷn o nofelau dosbarth, er enghraifft drwy ddarllen nofel am ffoadur yn ymuno ag ysgol gynradd wedi dianc o wlad sy'n profi rhyfel. Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddwysàu eu dealltwriaeth o gymunedau aml-ddiwylliannol a pherthnasoedd amrywiol drwy weithgareddau bwriadus ac ymwelwyr pwrpasol i'r ysgol. Maent yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddathlu eu Cymreictod a datblygu eu dealltwriaeth o'u hunaniaeth, diwylliant a'u treftadaeth trwy wersi penodol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar barch, ymddygiad da a chwrteisi. Mae hyn yn treiddio drwy'r ysgol ac mae'n gwbl amlwg yn agweddau dysgu a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r sylfaen gadarn hon yn cefnogi staff i greu cymuned hapus a chefnogol sy'n ysgogi disgyblion i wneud eu gorau. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi disgyblion i wynebu'r dyfodol yn hyderus a gydag agwedd bositif.

Mae'r staff yn dîm cryf ac effeithiol sy'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda. Mae arweinyddiaeth gryf y pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel sy'n cael eu hadnabod gan ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i gynnig profiadau cyffrous i'r disgyblion er mwyn cefnogi eu lles emosiynol a'u medrau dysgu.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol, ac yn ei hadnabod yn dda. Er nad yw trefniadau arferol y llywodraethwyr i ymweld â gweithgareddau wedi ailgydio'n llwyr ers y pandemig, maent wedi craffu ar waith disgyblion a gwrando ar rhai yn darllen. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sefyllfa gyfredol yr ysgol trwy holi cwestiynau treiddgar yn ystod cyfarfodydd y corff llywodraethol a thrwy ymweliadau â'r ysgol. Maent hefyd yn gwrando ar lais y disgyblion ac yn eu cefnogi, pan fod angen. Er enghraifft, cefnogodd y llywodraethwyr gais y disgyblion i'r awdurdod lleol i wella cyflwr y ffordd tu allan i'r ysgol. Yn dilyn llythyr manwl gan ddisgyblion yn nodi cyflwr annerbyniol y ffordd, trefnodd yr awdurdod i'r ffordd gael ei thrwsio ar frys. Mae'r llywodraethwyr yn cydweithio ag arweinwyr a'r disgyblion yn effeithiol wrth sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod trefniadau hunanwerthuso cadarn wedi eu sefydlu er mwyn gwerthuso'r dysgu a'r ddarpariaeth. Mae'r staff yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth amrywiol yn effeithiol i gasglu a choladu gwybodaeth berthnasol am berfformiad yr ysgol. Maent yn ystyried barn rhieni, disgyblion a llywodraethwyr yn fedrus ac yn ei chynnwys yn fedrus wrth gynllunio'r blaenoriaethau gwella. Maent yn darparu adroddiadau monitro manwl sy'n adnabod cryfderau ac agweddau ar gyfer gwelliant yn effeithiol. Mae'r wybodaeth o'r prosesau hunanwerthuso yn cael ei defnyddio'n effeithiol i bennu blaenoriaethau synhwyrol ar gyfer gwelliant, er

enghraifft wrth wella medrau llafar a rhifedd disgyblion yn dilyn y cyfnodau clo. Yn ogystal, mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol wrth ymateb i flaenoriaeth cenedlaethol, er enghraifft wrth gefnogi staff i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a'r rhaglen drawsnewid anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r pennaeth yn rheoli'r cyllid yn ofalus ac yn trefnu adnoddau'r ysgol yn effeithiol. Mae'n gwneud defnydd da o grantiau gwahanol sydd wedi eu dyrannu i'r ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i ddarparu rhaglenni cymorth i ddisgyblion sydd angen cymorth pellach gyda eu dysgu. Mae gan yr ysgol gynllun gwariant synhwyrol sy'n sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Mae staff y disgyblion ieuengaf yn gwneud defnydd arbennig o dda o'r ardaloedd allanol i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae staff y disgyblion hynaf yn dechrau gwneud defnydd effeithiol o'r ardal tu allan wrth iddynt gynllunio gweithgareddau bwriadus ar gyfer gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer yr athrawon a'r cynorthwywyr sy'n seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol unigol a blaenoriaethau'r ysgol. Yn ystod y cyfnodau clo, mae'r staff wedi manteisio ar ddulliau rhithiol i fynychu hyfforddiant proffesiynol. Maent yn dewis cyrsiau a hyfforddiant addas neu gyfleoedd i wneud ymchwil i ehangu eu medrau proffesiynol. Er enghraifft, mae un aelod o staff wedi ymchwilio i ddulliau o herio disgyblion i gyflawni'n well trwy hybu eu medrau i ddysgu'n annibynnol. O ganlyniad i rannu'r ymchwil â gweddill y staff, mae staff ar draws yr ysgol yn darparu heriau cyson i ddisgyblion wneud cynnydd yn eu medrau gyda llai o gefnogaeth gan oedolion.

Mae gan yr ysgol berthynas gryf gyda rhieni, er enghraifft wrth i staff gefnogi eu plant yn ystod y pandemig. Yn ogystal, maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd diweddar i'w croesawu yn ôl i'r ysgol i ddathlu gwaith eu plant ac i drafod eu cynnydd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

ae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/08/2022